

Eisteddfod yr Urdd – 2018

Cystadleuaeth Prif Seremoni Defod Y Coroni Bl.10 a dan 25 oed (395)

BEIRNIADAETH CATRIN BEARD A LLEUCU ROBERTS

Rhaid i ni nodi'n gyffredinol ein bod wedi ein calonogi'n fawr iawn gan safon yr iaith yn y gystadleuaeth hon. Iaith rywiog, gywir yw'r deunydd sylfaenol sy'n rhaid i bob awdur ei gael er mwyn gallu adeiladu ei stori, a brafyw gallu dweud fod pob un o'r ymgeiswyr eleni yn meddu ar adnoddau ieithyddol cadarn.

Strempan

Mae yma hedyn syniad gwreiddiol am faethu babanod, a'r syniad o ennill a cholli sydd ynghlwm wrth hynny. Ymdriniodd â'i thestun mewn modd annwyl a gofalus. Gall ysgrifennu'n gynnil heb oedi gormod ar y teimladau – mae'r rheini'n dod yn amlwg drwy awgrymu yn y stori a thrwy weithredoedd y cymeriadau. Mae hynny'n aml yn well na dweud moel, ac mae'r awdur yn deall hynny. Ychydig yn fyr oedd y stori o ystyried bod y testun yn un a gynigiai gymaint. Ond dalier ati – dyma awdur sy'n gallu dewis syniad da am stori, a'i hadrodd yn sensitif.